Adroddiad Ymgynghori

Cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Queensferry o 4-11, fel ag y mae ar hyn o bryd, i 3-11 er mwyn hwyluso integreiddio dosbarth meithrin o fis Medi 2014.

Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi'u cynnal mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu ysgol ar gyfer yr ystod oedran 3-16 ar safle presennol Ysgol Uwchradd John Summers ac Ysgol Gynradd Queensferry. Mae'r cynigion a gyhoeddwyd yn yr hysbysiad statudol ym mis Gorffennaf 2013 yn cynnig bod yr ysgol newydd yn cael ei sefydlu ym mis Medi 2016. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys cau ysgol feithrin Croft a throsglwyddo'r ddarpariaeth feithrin i Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Ethelwold, ac i Ysgol Gynradd Queensferry.

Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori ymhlith yr holl ymgyngoreion statudol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Adolygiad Ysgolion Ardal –
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.
Ysgol Gynradd Queensferry
Derbyniwyd ffurflenni erbyn 12 Mawrth 2014.
2 Saesneg / 0 Cymraeg

1. Pa mor gryf ydych chi'n cytuno â chynnig yr ymgynghoriad i ostwng ystod oedran Ysgol Gynradd Queensferry o 4-11 i 3-11 er mwyn caniatáu ar gyfer integreiddio dosbarth meithrin?		
Cytuno'n Gryf	2	100%
Tueddu i Gytuno	0	0%
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	0	0%
Tueddu i Anghytuno	0	0%
Cytuno'n Gryf	0	0%
Cyfanswm	**2**	**100%**

Dywedwch wrthym pam rydych yn teimlo felly.

1. Mae integreiddio dosbarth meithrin yn gam cadarnhaol oherwydd y bydd yn haws i blant addasu i'r dosbarth derbyn.

2. Bydd yn well i blentyn aros mewn un man o oedran meithrin i'r ysgol uwchradd, ac yn well i rieni â phlentyn sydd eisoes yn mynd i Ysgol Gynradd Queensferry.

A ydych chi'n:
Rhiant/Gofalydd 2 - **100%**
Athro 0 - **0%**
Staff Cymorth 0 - **0%**
Llywodraethwr 0 - **0%**
Arall 0 - **0%**

Enw'r Ysgol
1. Ysgol Gynradd Gymunedol Queensferry CH5 4GY

2. Ysgol Gynradd Queensferry CH5 1XU

- Derbyniwyd dau ymateb, fel y gwelir uchod, gan Rieni/Gofalwyr plant yn Ysgol Gynradd Queensferry, ac roedd y ddau yn cefnogi'r cynnig

- Rydym yn aros am ymateb ffurfiol gan Estyn.

Ar sail yr ymateb a dderbyniwyd, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol, y rhoddir copi o'r rhan priodol isod:

Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND

HYSBYSIAD STATUDOL I NEWID YR YSTOD OED ISAF
yn Ysgol Gynradd Gymunedol Queensferry, Campws Queensferry
Ffordd Orllewinol Caer, Queensferry, SIR Y FLINT CH5 1SE

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Sir y Fflint, ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol, yn cynnig newid Ysgol Gynradd Queensferry, Campws Queensferry, Ffordd Orllewinol Caer, Queensferry, Sir y Fflint CH5 1SE fel bod yr ystod oed isaf yn yr ysgol yn newid o 4-11 i 3-11 oed er mwyn integreiddio'r ddarpariaeth meithrin. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Sir y Fflint.

Cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn, cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint ymgynghoriad. Mae adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, ymateb y cynigydd a sylwadau Estyn ar gael ar wefan Awdurdod Lleol Sir y Fflint: **www.siryfflint.gov.uk/School/Modernisation**

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi, 2014.

Bydd 30 o ddisgyblion pedair oed yn dechrau yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn gyntaf y caiff y trefniadau newydd eu rhoi ar waith. Bydd 15 o leoedd meithrin (cyfwerth ag amser llawn).

Cyngor Sir y Fflint fydd yr Awdurdod Derbyn a bydd y trefniadau derbyn disgyblion yn cydymffurfio â Pholisi Derbyn Disgyblion Cyngor Sir y Fflint, ar gyfer disgyblion meithrin yn benodol.

Bydd copi papur ar gael i unrhyw un sy'n dymuno wrth gysylltu a'r Awrdurdod.

Yr Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir yr Wyddgrug
CH7 6ND

Ebost**:** www.siryfflint.gov.uk/School/Modernisation